OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 1948 (Cy.214)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Diwedd y Cyfnod Sylfaen a Dirymu Trefniadau Asesu'r Cyfnod Allweddol Cyntaf) (Cymru) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *29 Gorffennaf 2011* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *5 Awst 2011* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Medi 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 108(2)(b)(iii), (3)(c) a (5) i (11) a 210 o Ddeddf Addysg 2002(**1**) yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

### Enwi, cychwyn, cymhwyso a dirymu

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Diwedd y Cyfnod Sylfaen a Dirymu Trefniadau Asesu'r Cyfnod Allweddol Cyntaf) (Cymru) 2011 a daw i rym ar 1 Medi 2011.

(2) Mae darpariaethau'r Gorchymyn hwn yn gymwys at ddibenion canfod cyraeddiadau ym meysydd dysgu perthnasol plant sydd yn y flwyddyn olaf o'r cyfnod sylfaen.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran ysgolion a gynhelir yng Nghymru.

(4) Mae Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Y Trefniadau Asesu ar gyfer Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth) (Cyfnod Allweddol 1) (Cymru) 2002(**2**) wedi ei ddirymu.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "deilliannau cyfnod sylfaen" ("*foundation phase outcomes*") yw'r deilliannau a nodir yn y ddogfen;

(**1**) 2002 p.32. Diwygiwyd is-adran (2) o adran 108 gan adran 21(1) a (7)(a) o Fesur Addysg (Cymru) 2009 (mccc 5). Diwygiwyd is-adran (6) o adran 108 gan O.S. 2010/1158 ac is-adran (11) gan baragraffau 11 i 13 o'r Atodlen i Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 (mccc 1).

(**2**) O.S. 2002/45 (Cy.4).

ystyr "y ddogfen" ("*the document*") yw'r ddogfen o'r enw "Y Cyfnod Sylfaen — Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru"(**3**) a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ac sy'n pennu'r meysydd dysgu, a'r deilliannau a'r rhaglenni addysgol mewn perthynas â'r meysydd dysgu hynny;

ystyr "diwrnod gwaith" ("*working day*") yw diwrnod nad yw'n ddydd Sadwrn, yn ddydd Sul, nac yn ŵyl y banc o fewn yr ystyr a roddir i "bank holiday" gan adran 1 o Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(**4**);

ystyr "meysydd dysgu" ("*areas of learning*") yw'r meysydd dysgu a nodir yn y ddogfen;

ystyr "meysydd dysgu perthnasol" ("*relevant areas of learning*") yw—

(i) datblygiad mathemategol,

(ii) datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol, ac

(iii) sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu; ac

ystyr "tymor yr haf" ("*summer term*") yw'r tymor olaf mewn blwyddyn ysgol.

**Asesu gan athrawon — cyffredinol**

**3.**—(1) Rhaid i'r pennaeth wneud trefniadau i bob disgybl gael ei asesu gan athro neu athrawes ym mhob un o'r meysydd dysgu perthnasol yn unol â darpariaethau'r erthygl hon ac i gofnod ysgrifenedig o'r canlyniadau gael ei wneud gan yr athro neu'r athrawes.

(2) Rhaid i'r disgybl gael ei asesu a rhaid i'r athro neu'r athrawes gofnodi'r canlyniadau ddim hwyrach nag ugain niwrnod gwaith cyn diwedd tymor yr haf.

**Asesu gan athrawon — meysydd dysgu perthnasol**

**4.**—(1) Diben yr asesu yw penderfynu'r deilliant cyfnod sylfaen y mae'r disgybl wedi ei gyrraedd ym mhob maes dysgu perthnasol.

(2) Rhaid i'r cofnod o'r canlyniadau fod ar ffurf datganiad cryno o bob deilliant cyfnod sylfaen y mae'r disgybl wedi ei gyrraedd ym mhob maes dysgu perthnasol.

**Pwerau ategol Gweinidogion Cymru**

**5.** Caiff Gweinidogion Cymru wneud y darpariaethau hynny y mae'n ymddangos yn hwylus iddynt eu gwneud ac sy'n rhoi effaith lawn i'r darpariaethau a wneir o dan y Gorchymyn hwn (ac eithrio darpariaethau sy'n rhoi neu'n gosod swyddogaethau fel a grybwyllir yn adran 108(6) o Ddeddf Addysg 2002) neu sy'n ychwanegu atynt mewn ffordd arall.

*Leighton Andrews*
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru.

29 Gorffennaf 2011

(**3**) Rhif ISBN 978 0 7504 4429 3.
(**4**) 1971 p.80.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

O dan adran 108(2)(b)(iii) o Ddeddf Addysg 2002 caiff Gweinidogion Cymru bennu drwy orchymyn unrhyw drefniadau asesu sydd yn eu barn hwy yn briodol i'r cyfnod sylfaen.

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu i ddisgyblion gael eu hasesu yn y flwyddyn olaf o'r cyfnod sylfaen gan athro neu athrawes ac mae'n gosod diben yr asesiadau hynny (erthyglau 3 a 4). Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth sy'n rhoi effaith i'r darpariaethau a wneir gan y Gorchymyn neu yn ychwanegu atynt fel arall (erthygl 5).

Ar ben hynny, mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn darparu ar gyfer dirymu trefniadau asesu'r cyfnod allweddol cyntaf a nodir yng Ngorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Y Trefniadau Asesu ar gyfer Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth) (Cyfnod Allweddol 1) (Cymru) 2002 (erthygl 1(4)).